# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar adnewyddu'r economi a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 12 Ionawr 2011

**At Christine Chapman:**

Gwneuthum addewid y byddwn yn ysgrifennu i ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych yn ystod trafodaeth y Cyfarfod Llawn ar Adnewyddu'r Economi ar 30 Tachwedd. Ymddiheuraf am yr oedi cyn rhoi ymateb cynhwysfawr i chi.

Gwnaethoch godi pwysigrwydd helpu graddedigion i gael gwaith, yn enwedig mewn BBaChau ac ardaloedd mwy gwledig. Rydym yn parhau i ddatblygu ac ehangu ein rôl o ran annog entrepreneuriaeth, gan gynnwys ar gyfer graddedigion. Ar 15fed Tachwedd, lansiais Gynllun Gweithredu newydd y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid. Roedd y cynllun gweithredu hwn yn amlinellu mesurau a chymorth gan fy Adran i a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ysbrydoli ac annog y genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes. Mae'n cynnwys hyrwyddo entrepreneuriaeth mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru, gyda chyfleoedd i ddysgu am fusnes. Mae hefyd yn cynnwys rhwydwaith o hyrwyddwyr entrepreneuriaeth mewn Sefydliadau Addysg Pellach ac Addysg Uwch ledled Cymru.

Rydym hefyd yn annog mwy o gydweithredu rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a busnesau er mwyn gwella arloesedd ac ymchwil a datblygu. Un o fuddiannau hyn fydd annog mwy o raddedigion talentog i weithio gyda busnesau yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynnig cymorth mentora un i un am ddim i raddedigion sydd am ddechrau eu busnes eu hunain gyda'r posibilrwydd o dyfu, gan gynnwys mynediad i fwrsariaeth ariannol mewn rhai achosion.

Gwnaethoch hefyd amlygu'r anawsterau y gall rhai BBaChau eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar wybodaeth. Rydym yn cynnig gwybodaeth a chyngor ehangach i'r busnesau hyn ar-lein yn www.busnes.cymru.gov.uk a thrwy ein llinell gymorth i fusnesau (Ffôn: 03000 6 03000), yn ogystal â chanllawiau a gwybodaeth i helpu i ddod o hyd i gymorth ehangach gan y sector preifat, y trydydd sector a mannau eraill. Ar gyfer busnesau y byddai'n well ganddynt drafod problemau, cael gwybodaeth a chael eu cyfeirio at wasanaethau wyneb yn wyneb, mae gennym 12 o ganolfannau rhanbarthol ledled Cymru. Gall y canolfannau hyn ddarparu cyngor un i un i ficrofusnesau a all wynebu'r anawsterau mwyaf wrth geisio cael gafael ar wybodaeth. Rydym hefyd yn cynnal neu'n bwriadu cynnal gweithdai ledled Cymru i helpu BBaChau i fynd i'r afael â materion anodd, fel cael gafael ar gyllid, cydraddoldeb ac amrywiaeth a llywio'u ffordd drwy'r prosesau cynllunio.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn mynd i'r afael â phob un o'r pwyntiau a godwyd gennych yn ystod y Cyfarfod Llawn.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar adnewyddu'r economi a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 12 Ionawr 2011

**At Angela Burns:**

Gwneuthum addewid y byddwn yn ysgrifennu i ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych yn ystod trafodaeth y Cyfarfod Llawn ar Adnewyddu'r Economi ar 30 Tachwedd. Ymddiheuraf am yr oedi cyn rhoi ymateb cynhwysfawr i chi.

Roeddech yn pryderu ynghylch sut y byddai “Adnewyddu’r Economi: Cyfeiriad Newydd” yn effeithio ar Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro a pha fuddiannau fyddai i fusnesau yn yr ardal. Un o flaenoriaethau allweddol Adnewyddu’r Economi yw gwella’r seilwaith ar gyfer pob busnes, waeth ble maent wedi’u lleoli yng Nghymru. Er enghraifft, rydym yn gwneud cynnydd da tuag at ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf. Bydd hyn yn helpu eich etholwyr i wneud defnydd gwell o’r rhyngrwyd i ddatblygu eu busnesau. Hefyd, o ddechrau’r flwyddyn ariannol nesaf bydd Cronfa Blaenoriaethau Rhanbarthol gwerth £3 miliwn. Bydd y gronfa hon yn cynorthwyo prosiectau lleol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i economi rhanbarth penodol. Fe’ch sicrhaf y bydd y math o gymorth y byddwn yn ei ddarparu yn mynd i’r afael â’r materion penodol sy’n effeithio ar fusnesau yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.

Gwnaethoch hefyd ofyn am y chwe sector allweddol, gan gyfeirio’n benodol at swyddi gweithgynhyrchu a swyddi gwyrdd. Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni a’r Amgylchedd yw dau o’r chwe sector allweddol yn fy mholisi newydd. Nid oes eto ddiffiniad penodol o’r sectorau hyn. Bydd y Panel Sector perthnasol yn ystyried pob un. Bydd y Paneli Sector yn cynghori Gweinidogion ar y sector, y cyfleoedd i’r sector a’i anghenion, ac yn helpu i ddatblygu polisïau a chynghori ar y ffordd y dylid eu gweithredu. Ar hyn o bryd, rydym ond yn ystyried cynnwys cwmnïau mewn sector os ydynt yn gweithio’n uniongyrchol yn y maes hwnnw, yn hytrach nag yn ei gadwyn gyflenwi.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn trafodaeth â Mustang Marine, y cwmni y gwnaethoch ei grybwyll yn y Cyfarfod Llawn. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd hyd yn hyn, nid ydym o’r farn bod y cwmni yn gweithredu o fewn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch na’r sector Ynni a’r Amgylchedd ac felly nid yw’n gymwys i gael cymorth busnes y gellir ei ad-dalu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhanbarthol Mustang Marine a’i botensial i dyfu ac wedi trefnu bod Rheolwr Cydberthynas a swyddog o’n tîm Adnewyddu’r Economi yn ymweld â’r cwmni i ystyried y prosiect yn fanylach.

Waeth beth fydd y canlyniad, bydd y cwmni yn dal i fod yn gymwys i gael amrywiaeth o gymorth arall y gallwn ei gynnig i fusnesau, megis cymorth sgiliau. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd y cwmni hwn yn cael budd o gynnydd mewn buddsoddiad yn y sector Ynni a’r Amgylchedd. Er enghraifft, gallai adeiladu rhagor o ffermydd gwynt arwain at gynnydd yn y galw am eu cynnyrch.

Gwnaethoch grybwyll yr anhawster y mae rhai busnesau’n ei wynebu o hyd yn anffodus o ran cael gafael ar gyllid. Wrth weithredu Adnewyddu’r Economi, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ystod o opsiynau ariannol ar gael i fusnesau yng Nghymru. Fel y cyfryw, rydym yn gweithio i nodi bylchau yn y ddarpariaeth cyllid masnachol a mynd i’r afael â hwy. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr o’r diwydiant gan ystyried yr holl opsiynau. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno cynnyrch ariannol newydd wedi’i anelu at fusnesau yng Nghymru, os na fydd y Gronfa Twf Busnesau gwerth £1.5 biliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Bancio Prydain yn diwallu anghenion penodol busnesau yng Nghymru yn llawn.

Eich pwynt olaf oedd nad yw’r gwasanaeth sifil yng Nghymru yn canolbwyntio digon ar fusnes, a bod hynny’n niweidio busnesau yng Nghymru. Mae uwch swyddogion, mewn trafodaeth â mi, yn cwblhau’r strwythur. Fy mwriad penodol yw y bydd capasiti a gallu yr Adran Economi a Thrafnidiaeth yn cael eu gwella drwy’r broses hon i wireddu uchelgais y Llywodraeth ar gyfer cymorth busnes a buddsoddiad mewnol.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn mynd i’r afael â’r holl bwyntiau a godwyd gennych yn ystod y Cyfarfod Llawn.